**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Pwyllgor Safonau |
| **DYDDIAD:** | 31 Hydref 2012 |
| **TEITL:** | Adroddiad ar Brotocol Wardiau Aml-Aelod |
| **ADRODDIAD GAN:** | Cyfreithiwr y Swyddog Monitro |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I adrodd ynglŷn â wardiau aml-aelod ac atodi cymalau amlddewis i'r Pwyllgor ystyried ac os ydynt yn cytuno arnynt i ddrafftio Protocol yn barod i ymgynghori hefo Aelodau |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Meirion Jones, Cyfreithiwr y Swyddog Monitro (est 2563) |

1. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys 40 o ranbarthau etholiadol gydag un Cynghorydd yr un. Ar 19 Medi 2012 dywedodd y Gweinidog, Carl Sergeant, ei fod wedi derbyn cynigion Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol yng Nghymru i greu 11 o wardiau i Sir Fôn ac i leihau y nifer o Gynghorwyr o 40 i 30. Felly, bydd yna wardiau aml-aelod, o Mai 2013 ymlaen.

2. Yng Nghyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn cyfeirir mewn rhai rhannau i wardiau unigol a bydd y rhain yn gorfod cael eu cyfeirio atynt. Maent yn cynnwys:-

   1.3 Sut mae'r Cyngor yn gweithredu - "Ar y Cyngor mae 40 o Gynghorwyr. Mae Cynghorwyr yn atebol yn ddemocrataidd i drigolion eu hetholaeth. Pennaf ddyletswydd pob Cynghorydd yw bod yn atebol i'r gymuned gyfan, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rhai hynny na wnaeth bleidleisio drostyn."
   2.2.3 Rolau a Swyddogaethau pob Cynghorydd
   2.13.9 Penderfyniadau sy'n cael effaith ar ward unigol
   3.5.1.7 "Pan fydd aelod o'r Cyngor wedi rhoi gwybod i swyddog sydd â phwerau dirprwyol am ei ddiddordeb cyfreithlon mewn mater neu pan fydd mater sy'n berthnasol neu sydd yn effeithio ar ward aelod, bydd y swyddog yn hysbysu'r Aelod yn rheolaidd o ddatblygiadau sylweddol mewn perthynas â'r mater hwnnw."
   4.6 Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio gan gynnwys 4.6.4.3 Cynghorwyr Lleol

5.3 Protocol i'r Berthynas rhwng Aelodau / Swyddogion ac yn arbennig materion ward 5.3.8.11.

3. Mae cynghorau eraill yng Ngogledd Cymru efo wardiau aml-aelod. Cysylltwyd â hwy ond dim ond Sir Fflint a Gwynedd atebodd. Nid oes gan Sir Fflint na Gwynedd unrhyw brotocol neu reol sydd wedi ei anelu yn bendant at wardiau aml-aelod (e.e. ar aelod yn ymdrin ag aelod arall mewn wardiau o'r fath, swyddogion yn gweithredu ar fusnes a wardiau aml-aelod nac unrhyw fater arall).

Sir Fflint – allan o 44 o wardiau, 13 sydd yn aml-aelod hefo 26 Aelod
Gwynedd – allan o 71 ward, 4 sydd yn aml-aelod hefo 8 Aelod

4. Nid yw ymchwil yng Nghymru wedi datgelu unrhyw wybodaeth berthnasol.

5.1 Ym mis Mai 2007 bu i'r etholiadau Llywodraeth Leol yn yr Alban ddisodli wardiau un aelod sengl gyda wardiau etholiadol mwy o 3 neu 4 aelod. Paratowyd adroddiad i archwilio sut oedd wardiau aml-aelod yn gweithredu yng Nghymru, Lloegr, Iwerddon a Seland Newydd. (Research Report on "Perspectives on Multi Member Ward Working: Learning from Experiences in Wales, England, Ireland and New Zealand" - March 2007). Yn ei gyflwyniad dywed, inter alia

- "If nothing is done in preparation for multi member wards a system will encourage collective members to focus on fighting for profile and electoral advantage, both within and between political parties, often to the detriment of serving the community. However that is by no means inevitable – Councillors and Councils have the opportunity to take measure to support successful multi member wards working.
- The key to successful multi member ward working and ensuring that elected members collaborate by focusing on serving their community rather than constantly electioneering. This focus on the community is evident in close-knit communities in Ireland and Wales where councillors were well known to each other, and is the norm in New Zealand where political parties play little part in local government.

- The research suggests that where wards are given a clear purpose and role ward members will be in a better position to rally together for the good of the community.
- To give purpose to multi member ward councils could exploit a range of possible roles for the multi member ward including

    A scrutiny function where performance information and reporting is directed at the ward level and the ward becomes a focal point for public challenge of officers, potentially enhancing local democracy, encouraging greater public awareness and engagement in local government.

    A range of council services could be delivered and organised around the ward, or groups of wards and a ward could be the focus of community planning at the local level."

5.2 Y prif ddarganfyddiadau o'r ymchwil yng Nghymru oedd:-

- "Inter-party co-operation at ward level is possible, but this becomes difficult intense political situations
- Personal differences can be a major hindrance to the development of co-operative relationships in multi-member wards.
- Interaction between members seems to be easier in close-knit communities, where longer-standing relationships have often developed.
- Protocols do exist to govern officer-member interaction in a multi member environment, however, informal common practice is more likely to shape relations."

Roedd briff yr ymchwil hefyd yn cynnwys y darganfyddiad canlynol:-

"Officers are generally positive about multi member working. They do not feel that these impact negatively on the work of Councils."

5.3 Darganfyddiadau eraill oedd:-

- "Where political parties are a feature of local government, STV can create intra as well as inter-party competition at the ward level, which results in a significant increase in councillors' workload.

- Decentralised political management structures seem to facilitate increased co-operation within and between wards, by giving a clear purpose and role for the ward.
- No evidence of formal procedures and protocols governing relationships between councillors in multi member wards was uncovered.
- Workload can be split both geographically and by specialism within the same ward.
- Where strategies for caseload sharing between ward members exist they tend to have been developed on an informal and ad hoc basis, and in England, Ireland and Wales caseload sharing tends only to be done within political parties.
- Where councillors work closely together there is evidence to suggest that they reduce duplication of case work, which can also result in a reduction in workload.
- Evidence from New Zealand also highlights that multi member working can benefit both members and constituents.
- The ability to be flexible and to build and maintain good working relationships is important in multi member wards."

6.1 Er hynny, erbyn 2011, ond ychydig o gynghorau yr Alban oedd yn meddu ar brotocolau i wardiau aml-aelod. Derbyniodd Cyngor East Lothian ar 28 Mehefin 2011 adroddiad gan ei Brif Weithredwr "to provide Council with a final report on the review of the impact of multi member wards and officer / member relations". Yn 3.15 mae'n dweud "Most councils including East Lothian Council, have taken a view that the Code of Conduct for Councillors governs much of the behavioural issues that might be included in the protocol and that trying to legislate for how councillors and constituents might wish to operate in relation to constituency business is virtually impossible. Few councils have adopted multi member ward protocols".

6.2 Yr argymhelliad ar y rhan yna o'r adroddiad oedd "Further consultation should take place with elected members and senior officers on the value of producing guidance on multi member ward working and on whether elements of a protocol for multi member ward working and dealing with constituents enquiries should be included in the Scheme of Delegation of Standing Orders".

7. Mae ymchwil wedi cael ei wneud gyda Llywodraeth Leol yn Lloegr hefo Adran y Llywodraeth - Department for Communities and Local Government, a Chynghorau unigol. Mae Lloegr yn wlad o wardiau aml-aelod ond ni ddarganfuwyd un protocol i wardiau aml-aelod. Hwyrach bod hynny oherwydd bod wardiau aml-aelod wedi datblygu dros gyfnod o amser yn Lloegr ac nid ar un pwynt mewn amser fel yn yr Alban ac yma yn Sir Fôn.

8. Atodir y dogfennau canlynol:-

   8.1 Y Protocol i'r Berthynas rhwng Aelodau / Swyddogion cyfredol sydd yn 5.3 yn y Cyfansoddiad.
   8.2 Drafft o'r Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion.
   8.3 Mynegai cyfredol o'r Codau a'r Protocolau sydd yn Rhan 5 y Cyfansoddiad.
   8.4 Y Protocol Mynediad i Wybodaeth gan Aelodau Arfaethedig (wedi ei rifo ar hyn o bryd yn 8.3.8 yn y Cyfansoddiad)

9. Wedi cael ei atodi i'r Adroddiad hwn mae'r dogfennau canlynol ynglŷn â wardiau aml-aelod. (Maent mewn trefn amser)
   9.1 March 2007 - Improvement Service Research Report – Perspectives on Multi Member Ward Working: Learning from Experiences in Wales, England, Ireland and New Zealand (rhan)
   9.2 March 2007 - Research briefing - Perspectives on Multi Member Ward Working
   9.3 20 December 2007 – Edinburgh Council – Report and Protocol "Information Sharing in multi member wards"
   9.4 January 2008 - Dumfries and Galloway Council "Guidance for Officers Working in Multi Member Wards"
   9.5 22 May 2009 – Comhairle nah-Eilean Siar (Ynysoedd y Gorllewin) – Elected Member Protocol
   9.6 5 October 2010 - Fife Council - Review of Protocols - Report and Councillor/Officer Protocol re Multi Member Wards (tudalennau 4-7)
   9.7 20 June 2011 - East Lothian Council - Report on the Review of the Impact of Multi Member Wards and Officer/Member relations (rhan)

9.8 4 July 2012 – Moray Council – Report (tudalen 1) “Best Value for Moray – Governance documents” attaching “Multi Member Ward Protocol for Members” and “Multi Member Ward Protocol – Guidance for Officers”

10. Oherwydd bod y dogfennau o’r Cynghorau uchod yn amrywio ystyriwyd y dylai’r Pwyllgor weld y dogfennau fel y maent yn llawn. Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried:-

1. Ydyw’n dymuno symud ymlaen i baratoi Protocol drafft i wardiau aml-aelodau?
2. Os ydyw, gofynnir iddo argymell cymalau y dymunir iddynt gael eu cynnwys mewn Protocol o’r fath. (Hwyrach byddai’r Pwyllgor eisiau ystyried mabwysiadu un protocol neu dewis wahanol gymalau o nifer o brotocolau).

neu gyrff, ni ddylid rhyddhau gwybodaeth i unrhyw un heblaw aelod, gweithiwr i'r awdurdod perthnasol neu berson arall y mae ganddynt hawl i'w chael neu y mae angen iddynt gael ei gweld er mwyn cyflawni eu swyddogaethau'n iawn. Ni ellir cymryd bod dim yn y Côd hwn yn drech na'r dyletswyddau yn y statudau neu'r gyfraith gyffredin i gadw gwybodaeth benodol yn gyfrinachol, neu i ddatgelu gwybodaeth benodol.

**Penodi Staff**

5.2.11 Rhaid i weithwyr cymwys yr awdurdodau perthnasol sy'n ymwneud â recriwtio a phenodi staff sicrhau bod penodiadau'n cael eu gwneud ar sail rhagoriaeth. Er mwyn osgoi unrhyw gyhuddiad posibl o ragfarn, rhaid i weithwyr o'r fath beidio ag ymwneud ag unrhyw benodiad, nac unrhyw benderfyniadau eraill sy'n ymwneud â disgyblu, dyrchafu neu dâl ac amodau unrhyw weithiwr arall, neu ddarpar weithiwr, y maent yn perthyn iddynt, neu y mae ganddynt berthynas bersonol agos â hwy y tu allan i'r gwaith.

**Ymchwiliadau gan Swyddogion Monitro**

5.2.12 Pan fydd swyddog monitro'n cynnal ymchwiliad yn unol â rheoliadau a wneir dan adran 73(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid i weithiwr cymwys gydymffurfio ag unrhyw ofynion a wneir gan y swyddog monitro hwnnw mewn cysylltiad ag ymchwiliad o'r fath.

## 5.3 Protocol i’r Berthynas Rhwng Aelodau / Swyddogion

### 5.3.1 Rhagarweiniad

5.3.1.1 Pwrpas y protocol hwn yw sefydlu safonau ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau a Swyddogion y Cyngor yn eu hymwneud â'i gilydd a chynnig canllawiau yng nghyswllt rhai o'r materion sy'n codi amlaf. Cydnabyddir bod safon ac effeithiolrwydd y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion y Cyngor yn gorwedd wrth wraidd llywodraeth leol dda. Yr amcan cyffredin yw sicrhau perthynas weithio dda rhwng Aelodau a Swyddogion y Cyngor a sicrhau cydweithrediad fel bod y naill yn cefnogi swyddogaeth y llall. Yn y protocol hwn ystyr "Swyddogion" yw'r holl weithwyr a'r holl staff a gyflogir gan y Cyngor Sir gan gynnwys y rheini sy'n gweithio am dymor byr, yn gweithio i asiantaeth neu rai mewn sefyllfaoedd lle nad ydynt yn cael eu cyflogi.

5.3.1.2 Mae'r Cyngor yn derbyn na all awdurdod lleol weithio'n effeithiol onid oes perthynas dda rhwng yr Aelodau a'r Swyddogion.

5.3.1.3 Bwriedir i'r protocol hwn fod yn ganllaw i Aelodau a Swyddogion y Cyngor yn eu hymwneud â'i gilydd.

5.3.1.4 Gan fod sawl agwedd i'r berthynas a honno ar adegau yn gymhleth nid yw'r protocol hwn yn ceisio bod yn derfynol nac yn haearnaidd. Yr unig beth a wna yw

cynnig canllaw ar rai materion sy'n codi'n aml. Y gobaith yw y bydd y dull a fabwysiedir yng nghyswllt y materion hyn hefyd yn cael ei ddefnyddio fel canllaw i ddelio gyda materion eraill.

5.3.1.5 Yr hyn sydd yma, yn y protocol hwn, yw datganiad ysgrifenedig o'r arferion cyfredol a'r confensiynau sydd eisoes yn bodoli. Gyda rhai agweddau, fodd bynnag, mae'n ceisio cynnig mwy o oleuni ac anelu at fod yn fwy penodol.

5.3.1.6 Yn ogystal, yn y protocol, ceisir adlewyrchu egwyddorion sydd wrth wraidd Rheolau a Chodau Ymddwyn i Gynghorwyr a Swyddogion. Amcan cyffredin y codau hyn yw ceisio cryfhau a chynnal integriti (real ac ymddangosiadol) llywodraeth leol trwy fynnu ar safonau uchel iawn yng nghyswllt ymddygiad unigolyn.

5.3.1.7 Mae'r berthynas a'r disgwyliadau a gyfyd yn sgil y berthynas wedi'i disgrifio fel a ganlyn:-

"Both councillors and officers are servants of the public and they are indispensable to one another. But their responsibilities are distinct. Councillors are responsible to the electorate and serve only so long as their term of office lasts. Officers are responsible to the Council. Their job is to give advice to councillors and the Council, and to carry out the Council's work under the direction and control of the Council, their committees and sub-committees. Mutual respect between councillors and officers is essential to good local government. Close personal familiarity between individual councillors and officers can damage this relationship and prove embarrassing to other councillors and officers."

**5.3.2 Parch a Chwrteisi**

5.3.2.1 Mae'n bwysig bod unrhyw fusnes rhwng Aelodau a Swyddogion, bob amser, yn cael ei gynnal yn gwrtais ac nad yw Aelodau na Swyddogion yn defnyddio'u sefyllfa mewn dull annheg. Bydd bygythion, codi ofn a chodi llais yn fygythiol yn weithredoedd yr edrychir arnynt fel rhai sy'n torri'r Protocol hwn mewn modd difrifol.

5.3.2.2 I gyflawni gwaith y Cyngor Sir yn effeithiol rhaid i'r naill ochr drin y llall gyda pharch, ymddiriedaeth a chwrteisi yn yr holl gyfarfodydd a'r holl gysylltiadau, rhai ffurfiol ac anffurfiol, rhwng Cynghorwyr a Swyddogion. Hefyd mae'r ystyriaeth hon yn un bwysig eithriadol i sefydlu enw da i'r Cyngor a'r argraff sydd gan y cyhoedd ohono. Mae'n dra phwysig bod Cynghorwyr a Swyddogion yn cofio beth yw eu dyletswyddau yng nghyswllt hyrwyddo enw da'r Cyngor a'u bod yn gwneud beth bynnag a allant i osgoi beirniadaeth mewn mannau cyhoeddus ar Gynghorwyr neu Swyddogion eraill, pa un a ydyw'r unigolion yn bresennol ai peidio. Mae parch rhwng Aelodau a Swyddogion y Cyngor yn hanfodol i lywodraeth leol dda a bydd hynny'n arwain at drefniadau gweithio effeithiol a chytûn. Bydd Aelodau a Swyddogion yn ymwneud â'i gilydd heb ragfarn a chan barchu polisi cyfleon cyfartal y Cyngor.

5.3.2.3 Yn eu hymwneud â'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r staff (yn enwedig staff lefelau isel), mae gofyn i Gynghorwyr gofio mor hawdd ydyw i Swyddogion deimlo parchus ofn a theimlo eu bod dan anfantais. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo Aelodau'n dal swyddi swyddogol a/neu swyddi gwleidyddol.

5.3.2.4 Ni ddylai Cynghorydd roddi pwysau annheg ar Swyddog i wneud rhywbeth nad yw â'r hawl i'w wneud nac i weithio y tu allan i'r dyletswyddau arferol neu y tu allan i oriau gwaith arferol. Rhaid wrth ofal arbennig yng nghyswllt defnyddio eiddo a gwasanaethau'r Cyngor.

5.3.2.5 Yn yr un modd rhaid i Swyddog beidio â cheisio dylanwadu ar Gynghorydd unigol i wneud penderfyniad o'i blaid, na chodi materion personol yng nghyswllt ei swydd, na gwneud haeriadau a chyhuddiadau ynghylch Swyddogion eraill. Mae gan y Cyngor weithdrefn ffurfiol i ymgynghori, ac yng nghyswllt cwynion a disgyblaeth. Un eithriad i'r rheol hon yw hawl y staff i ddweud am unrhyw ddrygau dan Bolisi Rhannu Pryderon y Cyngor (5.5).

5.3.2.6 Dylai Cynghorwyr gofio bod Swyddogion yn aml, oherwydd natur eu gwaith, yn gorfod canolbwyntio ar y gwaith hwnnw am gyfnod hir neu'n gorfod ei gwblhau ar frys erbyn dyddiadau penodol. Dylai Cynghorwyr barchu amser gweithio'r Swyddogion a threfnu ymlaen llaw i ymgynghori gyda nhw ac osgoi amharu arnynt yn aml yn ddirybudd.

5.3.2.7 Ar y naill law, mae croeso i berthynas weithio gyfeillgar rhwng Aelodau a Swyddogion ond gall perthynas bersonol a chynnes rhwng Cynghorwyr a Swyddogion wneud drwg i'r berthynas ac i egwyddor o barch rhyngddynt. Hefyd gallai sefyllfa o'r fath, yn fwriadol neu'n ddamweiniol arwain at drosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth nad yw'n briodol ei throsglwyddo o'r naill i'r llall, megis manylion personol. Hefyd gallai perthynas rhy gynnes achosi embaras i Gynghorwyr ac/neu i Swyddogion eraill a hynny, yn y pen draw, yn gallu creu amheuon o ffafriaeth. Yn ogystal gallai wneud drwg i argraffiadau'r cyhoedd yng nghyswllt cywirdeb a gwrthrychedd y Cyngor, sef peth i'w osgoi.

**5.3.3 Niwtraliaeth Wleidyddol**

5.3.3.1 Mae swyddogion llywodraeth leol yn cael eu cyflogi gan y Cyngor fel uned gorfforaethol ac yn atebol i bob aelod o'u Cyngor, nid i'r rheini mewn mwyafrif yn unig. Maent yn gwasanaethu'r Cyngor hwn ac yn atebol i'r Prif Weithredwr a'i gyfarwyddwyr - nid i Aelodau unigol o'r Cyngor - pa swydd bynnag y maent yn ei dal. Hefyd maent yn atebol i'r cyhoedd yn gyffredinol.

5.3.3.2 Rhaid i Swyddogion barchu hawliau pob Cynghorydd unigol, a rhaid i bob Swyddog, pa un a ydyw'n dal swydd gyda chyfyngiad gwleidyddol arni ai peidio, osgoi gweithredu'n wleidyddol neu ymddangos fel petai'n gweithredu felly tra'n gwneud ei ddyletswyddau i'r Cyngor. Rhaid i Swyddogion ddilyn polisïau'r Cyngor a pheidio â gadael i farn bersonol neu wleidyddol amharu ar eu gwaith.

5.3.3.3 Rhaid i Aelodau beidio â rhoddi Swyddogion mewn sefyllfa pan fo eu niwtraliaeth wleidyddol dan fygythiad neu'n ymddangos felly.

**5.3.4 Bwlio ac Ymddwyn yn Ymosodol neu'n Fygythiol**

5.3.4.1 Bydd geiriau neu gamau a fwriadwyd i ddylanwadu'n annheg ar Swyddog yn cael eu dehongli fel ffordd o fwlio, neu fel ymddygiad ymosodol neu fygythiol. Rhaid peidio â rhoddi pwysau ar Swyddogion y Cyngor i wneud argymhelliad penodol i'r Cyngor a hwnnw yn
groes i farn broffesiynol neu dechnegol yr unigolyn.

5.3.4.2 Nid oes rwystr i Aelodau rhag trafod materion gyda Swyddogion neu lobïo ar safbwynt penodol ond os ydyw'r pwysau hwnnw, oherwydd statws yr Aelod, yn gorfodi'r Swyddog i fynd yn groes i'w farn arferol, yna dehonglir peth o'r fath fel pwysau gormodol.

5.3.4.3 Ni ddylai Aelodau roddi cyfarwyddiadau'n uniongyrchol i weithwyr y Cyngor na'u beirniadu'n uniongyrchol. Er bod Cynghorwyr â'r hawl i feirniadu adroddiadau a'r camau a gymerwyd gan swyddogion dylent, bob amser :-

- osgoi ymosod ar Swyddogion yn bersonol
- sicrhau bod unrhyw feirniadaeth yn adeiladol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn debygol o arwain at well perfformiad yn y dyfodol, ac osgoi beirniadaeth sy'n beio yn unig

Nid yw'r safon hon i ymddygiad wedi ei bwriadu i rwystro Aelodau rhag anghytuno'n agored ac yn gyhoeddus gydag argymhelliad Swyddog ond os ydyw Aelodau am wneud hynny rhaid iddynt gofio nad yw Swyddogion yn rhan o'r ddadl yn y Cyngor neu yn y Pwyllgor ac efallai na chânt gyfle i ymateb i'r feirniadaeth.

Pe credai Cynghorydd nad yw wedi cael ei drin gyda'r parch neu'r cwrteisi priodol yna gall godi'r mater gyda rheolwr llinell y gweithiwr neu'n uniongyrchol gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn ddiymdroi onid yw'n bosib datrys y mater trwy drafodaeth uniongyrchol. Os ydyw'r cyfryw fater yn aros heb ei ddatrys efallai y bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cymryd camau disgyblu priodol yn erbyn y gweithiwr yn unol â gweithdrefnau arferol y Cyngor.

5.3.4.4 Os oes unrhyw feirniadaeth o weithiwr unigol yna dylid mynd ar drywydd honno gyda'r Pennaeth Gwasanaeth priodol, Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Prif Weithredwr neu'r Swyddog Monitro yn ôl fel y bo'n briodol. Efallai y bydd y Cyngor fel corff â chyfrifoldeb dirprwyol am yr hyn a wna Aelodau yn groes i ddyletswydd awgrymedig y cyflogwr i ddarparu amgylchedd gweithio cydnaws a rhesymol. Gallai hynny arwain at achos llwyddiannus yn erbyn y Cyngor, e.e. am ddiswyddo ar gam.

5.3.4.5 Nid yw'n dderbyniol i Aelodau na Swyddogion y Cyngor fanteisio mewn modd annheg ar eu sefyllfa y tu mewn i'r sefydliad. Bob amser disgwylir i Aelodau a Swyddogion y Cyngor ymddwyn mewn ffordd sy'n cynnal hyder y cyhoedd.

5.3.4.6 Os ydyw gweithiwr yn teimlo yr un peth ynghylch Cynghorydd, a thrafodaeth uniongyrchol un ai'n anymarferol neu'n methu â datrys y mater, yna dylai'r unigolyn godi'r mater gyda'r Rheolwr Llinell, neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol heb oedi. Dan amgylchiadau o'r fath, bydd y Cyfarwyddwr yn cymryd camau priodol, sef trwy gysylltu gyda'r Cynghorydd dan sylw a/neu arweinydd y grwp. Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn rhoddi gwybod i'r Prif Weithredwr os ydyw arweinydd grwp yn cael ei dynnu i mewn, neu mewn unrhyw achos arall os ydyw hynny'n briodol. Rhaid i'r Cyfarwydd (-wr/-wyr) cysylltiedig adrodd yn ôl i'r gweithiwr ar y canlyniadau.

**5.3.5 Gonestrwydd a Chywirdeb**

5.3.5.1 Dylai Aelodau a Swyddogion osgoi sefyllfaoedd ble bwrir amheuon ar eu gonestrwydd neu ar eu cywirdeb ac ni ddylent ymddwyn yn amhriodol ac osgoi, bob amser, ymddangos fel petaent yn ymddwyn felly.

5.3.5.2 Nid yw'n dderbyniol i Aelodau na Swyddogion y Cyngor fanteisio mewn modd annheg ar eu sefyllfa y tu mewn i'r sefydliad. Bob amser disgwylir i Aelodau a Swyddogion y Cyngor ymddwyn mewn ffordd sy'n cynnal hyder y cyhoedd.

**5.3.6 Cyngor gan Swyddogion i Grwpiau Gwleidyddol ac Aelodau**

**Gwaith Briffio**

5.3.6.1 Fe all gwybodaeth a roddir gan swyddogion i Gynghorwyr gael ei darparu fel brîff. Fe ellir darparu briff i Gynghorwyr unigol, aelodau pwyllgor arbennig neu'r Pwyllgor Gwaith, Arweinydd y Cyngor, Arweinyddion Grŵp neu (fel sydd wedi'i osod allan isod) un neu fwy o gyfarfodydd Grŵp.

5.3.6.2 Ni chaiff swyddogion ond darparu gwybodaeth a chyngor mewn cyfarfodydd briffio sy'n ymwneud â swyddogaethau a busnes y Cyngor, ac nid amgylchiadau unigol Cynghorwyr neu faterion sydd ond yn ymwneud â Grŵp.

5.3.6.3 Pan roddir briff, ni ellir gwneud penderfyniadau ar ran y Cyngor, er y gall ddarparu gwybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u cymryd a rhoi gwybodaeth i'r rhai sydd yn mynd i wneud penderfyniad.

5.3.6.4 Fe ddylid trefnu cyfarfodydd briffio a chyfarfodydd eraill gyda'r Cynghorydd, gan roi digon o rybudd am y busnes sydd i'w drafod. Ni ddylid rhoi briff ond trwy neu gyda chaniatâd uwch swyddog.

5.3.6.5 Os bydd swyddog yn rhoi briff i ddeilydd portffolio ar bwnc o natur gorfforaethol, yna fe ddylai aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith sydd yn chwilio am yr un wybodaeth ei chael gan y deilydd portffolio ac nid gan y swyddog.

5.3.6.6 Os bydd swyddog yn rhoi briff i Arweinydd Grŵp ar bwnc o natur gorfforaethol, yna fe ddylai aelodau eraill o'r un Grŵp sy'n ceisio'r un wybodaeth ei derbyn gan yr Arweinydd Grŵp ac nid gan y swyddog.

5.3.6.7 Ni fydd swyddogion ond yn mynychu cyfarfodydd Grŵp i roi briff gyda chaniatâd y Prif Weithredwr ac os yw'r cyfarfod yn un ffurfiol. Ni fydd swyddogion yn mynychu cyfarfod Grŵp tra bod materion o fusnes y Grŵp yn cael eu trafod. Bydd swyddogion yn ceisio delio'n ddiduedd gyda phob Cynghorydd ond mae'n anorfod y bydd angen iddynt wario mwy o amser ac ymdrech ar geisiadau gan y Grwpiau) mwyafrifol. Ni ddylai aelodau'r Grwpiau lleiafrifol gamddehongli hyn fel ffafriaeth gan swyddogion a'u gwneud yn destun ymosodiad cyhoeddus neu bersonol am y rheswm hwn.

5.3.6.8 Rhaid i Gynghorwyr sy'n mynychu cyfarfod briffio beidio â datgelu gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol mewn cyfarfod briffio.

5.3.6.9 Rhaid i swyddogion sy'n mynychu cyfarfod briffio beidio datgelu i Grŵp arall wybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol iddynt mewn cyfarfod briffio gan un Grŵp. Fodd bynnag, fe fydd swyddogion yn gallu datgelu gwybodaeth o'r fath i swyddogion eraill lle bo hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau.

5.3.6.10 Rhaid i swyddogion sy'n mynychu cyfarfod briffio gyda Chynghorwyr a phobl nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor fod yn hynod o wyliadwrus i sicrhau na fydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu y tu allan i'r Cyngor.

5.3.6.11 Fe all cyfarfodydd briffio ddigwydd naill ai wyneb yn wyneb neu ar y ffôn neu ar y rhyngrwyd. Lle ceir cyfarfod nad yw yn un wyneb yn wyneb, rhaid i'r swyddogion sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn gwybod pwy yw'r naill a'r llall.

**Cyfarfodydd briffio'r Prif Weithredwr i Arweinyddion Grwpiau**

5.3.6.12 Bydd y Prif Weithredwr yn galw ac yn cadeirio cyfarfodydd briffio rheolaidd gydag Arweinwyr yr holl Grwpiau yn y Cyngor.

5.3.6.13 Bydd y Prif Weithredwr yn darparu rhaglen i'r Arweinwyr Grwp o leiaf 3 diwrnod cyn y cyfarfod nesaf.

5.3.6.14 Fe all unrhyw Arweinydd Grwp awgrymu eitem ar gyfer rhaglen i'r Prif Weithredwr, ond y Prif Weithredwr ei hun fydd yn penderfynu ar gynnwys y rhaglen.

5.3.6.15 Os nad yw Arweinydd y Cyngor yn Arweinydd Grwp, yna fe all ef/hi fynychu.

5.3.6.16 Os nad yw'r Arweinydd Cysgodol yn Arweinydd Grwp, yna fe all ef/hi fynychu.

**5.3.7 Cefnogaeth i Aelodau a Grwpiau**

Yr unig gymorth y gall y Cyngor ei roddi'n gyfreithiol (e.e. cymorth megis papur swyddfa, teipio, cyfrifiaduron, argraffu, ffotocopio, cludiant ac yn y blaen) i Aelodau yw cymorth iddynt gyflawni eu swyddogaethau fel Aelodau o'r Cyngor. O'r herwydd rhaid sicrhau bod y cyfan o'r gwasanaethau cefnogol yn ymwneud â busnes y Cyngor yn unig. Rhaid sicrhau na fyddant, byth, yn cael eu defnyddio i hyrwyddo gwaith ymgyrchu politicaidd parti penodol nac i ddibenion preifat.

**5.3.8 Protocol Mynediad i Wybodaeth gan Aelod**

**Darparu gwybodaeth**

5.3.8.1 Fe all pob Cynghorydd archwilio a chymryd copïau o'r adroddiadau, cofnodion a phapurau cefndirol sy'n ymwneud â rhan gyhoeddus unrhyw raglen o gyfarfodydd o'r Cyngor, ei bwyllgorau a'r Pwyllgor Gwaith.

5.3.8.2 Mae gan Gynghorwyr hawl i wybodaeth nad yw'n gyhoeddus (yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r rhan honno o gyfarfod o'r Cyngor, ei bwyllgorau a'r Pwyllgor Gwaith a eithriwyd o'i gyhoeddi) os oes gan y Cynghorwyr hynny angen rhesymol i wybod y wybodaeth honno er mwyn cyflawni eu dyletswyddau fel Cynghorydd.

5.3.8.3 Fe all pob Cynghorydd ofyn i unrhyw Adran o'r Cyngor ddarparu iddynt unrhyw wybodaeth, eglurhad a chyngor ynglŷn â swyddogaethau'r Adran honno fel sydd yn rhesymol angenrheidiol i'w helpu i wneud eu gwaith. Mewn geiriau eraill, fe ddylai Cynghorwyr allu dangos eu hangen i wybod yr wybodaeth. Fe ddylai Cynghorwyr yn arferol ofyn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol neu uwch swyddog arall yn yr Adran berthnasol am wybodaeth.

5.3.8.4 Bydd angen i Gynghorydd wybod peth gwybodaeth sydd yn angenrheidiol iddo/iddi allu gwneud ei dd(d)yletswyddau'n iawn. Ni all y Cynghorydd hawlio angen i gael gwybodaeth nad yw'n ymwneud â busnes presennol neu ddiweddar y Cyngor. Nid oes gan y Cynghorydd hawl awtomatig i hawlio mynediad i wybodaeth lle na ellir dangos unrhyw angen i wybod. Nid yw'r gyfraith yn rhoi 'rhwydd hynt' i Gynghorydd fynd trwy ddogfennau'r Cyngor.

5.3.8.5 Bydd Cynghorydd sydd yn aelod o bwyllgor arbennig â hawl yn arferol i wybod am wybodaeth sy'n ymwneud â swyddogaethau'r pwyllgor hwnnw.

5.3.8.6 Fe all Cynghorydd nad yw'n aelod o bwyllgor arbennig gael mynediad i wybodaeth sy'n ymwneud â busnes y pwyllgor hwnnw cyn belled a'i fod ef/hi yn gallu dangos angen i wybod yr wybodaeth honno. Lle bo Cynghorydd yn ceisio cael

gwybodaeth gyfrinachol neu bersonol sy'n perthyn i bobl eraill, rhaid iddo ef/hi ofyn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol neu i uwch swyddog yr Adran berthnasol o'r Cyngor yn ysgrifenedig, gan roi rhesymau am y cais. Y Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol fydd yn penderfynu a ddylid datgelu'r wybodaeth os oes anghydfod.

5.3.8.7 Yn unol â pharagraff 5 o'r Côd Ymarfer i Aelodau, ni chaniateir i Gynghorwyr gyhoeddi gwybodaeth sydd yn gyfrinachol neu a eithriwyd rhag ei chyhoeddi heb ganiatâd y Swyddog Monitro. Ni chaniateir i Gynghorwyr ddatgelu gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol i unrhyw un ar wahân i Gynghorydd neu swyddog sydd â'r hawl i'w gwybod.

5.3.8.8 Pan yn delio gyda gwybodaeth bersonol, rhaid i'r Cynghorydd sicrhau nad yw ef/hi yn torri Deddf Diogelu Data 1988.

**Ymweliadau**

5.3.8.9 Fe all unrhyw Gynghorydd wneud ymweliad unigol i unrhyw Adran o'r Cyngor, depo, cyfleuster neu unrhyw le y mae'r Cyngor yn gwneud ei waith os :-

(a) Y bydd gan y Cynghorydd angen rhesymol i wybod am y lle hwnnw er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau; a

(b) Bod y Cynghorydd wedi rhoddi rhybudd rhesymol ymlaen llaw i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol (oni bai iddo gael ei ganiatáu yn wahanol gyda'r Cyfarwyddwr hwnnw); ac

(c) O safbwynt sefydliadau Gwasanaethau Cymdeithasol, bod y Cynghorydd wedi derbyn gwiriad lefel uwch gan y Swyddfa Cofnodiadau Troseddol yn unol â pholisi CRB y Cyngor.

Fodd bynnag, nid yw'r hawl i fynediad yn cael ei hymestyn yn awtomatig i ysgolion.

5.3.8.10 Bydd y Prif Weithredwr yn dweud wrth Gynghorwyr mewn Ward berthnasol ynglŷn ag ymweliadau cyhoeddus neu swyddogol a gynhelir neu a drefnir gan y Cyngor i lefydd neu at bobl o fewn y Ward honno. Ymweliad cyhoeddus neu swyddogol yw un all olygu cyhoeddusrwydd allanol ac/neu gyswllt gyda chynrychiolwyr o gyrff y tu allan i'r Cyngor.

**Materion Ward**

5.3.8.11 Rhaid i Gyfarwyddwr Corfforaethol unrhyw Adran sydd yn ystyried cais fyddai'n effeithio ar Ward arbennig neu ar grŵp o breswylwyr yn y Ward honno ddweud wrth Gynghorwyr y Ward honno am y cais ar y cyfle cyntaf. Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn nodi a yw'r wybodaeth honno yn gyfrinachol ac i ba raddau y mae'n gyfrinachol. Ni ddylai Cynghorwyr Ward ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol ar gynigion yn eu Ward. Bydd unrhyw fethiant i barchu cyfrinachedd

gwybodaeth o'r fath yn cael ei gyfeirio at Arweinydd Grŵp y Cynghorydd neu (yn achos Cynghorydd nad yw mewn Grŵp) i Gadeirydd y Cyngor, ac fe all hefyd fod yn torri'r Côd Ymarfer i Aelodau a Deddf Diogelu Data 1988.

5.3.8.12 Rhaid i Gynghorydd sy'n ceisio cael gwybodaeth sy'n ymwneud â mater neu le mewn Ward lle nad ydyw'n Gynghorydd ac yntau'n bwriadu siarad yn gyhoeddus ar y mater, ddweud wrth Gynghorwr/wyr y Ward honno ymlaen llaw.

5.3.8.13 Pe bai Cynghorydd yn ceisio cael gwybodaeth ynglŷn â mater neu le mewn Ward lle nad ydyw yn Gynghorydd, bydd y Swyddog y gwnaed y cais am wybodaeth iddo yn dweud wrth Gynghorydd/wyr y Ward honno ar y cyfle cyntaf.

**5.3.9 Cyfarfodydd Cyhoeddus**

5.3.9.1 Os ydyw Aelod neu grwp gwleidyddol yn galw cyfarfod cyhoeddus, yna rhaid dangos yn glir yn y cyhoeddusrwydd i'r cyfarfod ar ba sail y mae'n cael ei gynnal a rhaid peidio â dweud nac awgrymu ei fod yn gyfarfod Cyngor. Gall yr Aelod neu'r grwp gwleidyddol wadd Uwch Swyddog i fynychu cyfarfod o'r fath. Er nad yw'n ddyletswydd ar y Swyddog i fynychu bydd, os ydyw'n briodol ac yn gyfleus yn mynychu fel arfer. Pan fo Aelod yn gwadd Swyddog i fynychu cyfarfod o'r fath bydd y Swyddog dan sylw yn dweud am hynny wrth y Deilydd Portffolio i'r gwasanaeth dan sylw. Mae'n dderbyniol i Aelod alw cyfarfod i chwipio cefnogaeth i safbwynt penodol ond wrth wneud hynny rhaid i'r unigolyn ddweud yn glir ei fod yn mynegi ei safbwynt personol ei hun, nid safbwynt y Cyngor Sir.

5.3.9.2 Pryd bynnag y gwahoddir Uwch Swyddog i gynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod a drefnir yn lleol (h.y. cyfarfod grwp pwyso lleol) neu pan fo yn cael gwybodaeth am gyfarfod lleol wedi ei drefnu gan Awdurdod Lleol arall neu gan adran o'r Llywodraeth, rhaid iddo ddweud am y cyfarfod wrth yr Aelod lleol a, phan fo'r mater yn berthnasol yn gyffredinol i faes gwasanaeth penodol, rhaid dweud hefyd wrth y Deilydd Portffolio priodol. Yn ogystal bydd yr Aelodau hyn yn rhydd i fynychu pe credent fod hynny'n briodol.

5.3.9.3 Pryd bynnag y bydd y Cyngor yn trefnu cyfarfod cyhoeddus i ystyried pwnc lleol yna bydd yr holl Aelodau sy'n cynrychioli'r ward neu'r wardiau perthnasol bob amser yn derbyn gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod hwnnw. Yn yr un modd, pan fo'r Cyngor yn gwneud unrhyw waith ymgynghori ar faterion lleol yna bydd raid tynnu'r Aelod(-au) lleol i mewn ar y cychwyn cyntaf. Gall Aelodau ofyn i Uwch Swyddogion sefydlu cyfarfodydd lleol i ddatrys materion penodol sy'n codi yn eu wardiau, a phan fo'r Aelod a'r Swyddog yn gytûn mai dyna sydd yn briodol bydd y Swyddog yn gwneud trefniadau angenrheidiol. Pan fo cyfarfod yn ymwneud â mater sydd yn berthnasol mewn modd cyffredinol i faes gwasanaeth penodol yna bydd y Deilydd neu'r Deilyddion Portffolio'n cael gwybod am y cyfarfod.

**5.3.10 Aelodau a Swyddogion yn Mynychu Cyfarfodydd eraill**

5.3.10.1 Trwy drefnu ymlaen llaw, gall Aelodau, unrhyw bryd, gwrdd â Swyddog i drafod unrhyw agwedd ar fusnes y Cyngor.

5.3.10.2 Yn achlysurol, ac yn codi o benderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith neu Bwyllgor arall, gwneir trefniadau i gynnal cyfarfodydd ar lefel Aelodau gydag Awdurdodau Lleol eraill neu gyrff allanol. Bydd Swyddog priodol yn gwneud trefniadau ar gyfer cyfarfod a bydd Uwch Swyddog/Swyddogion priodol yn mynychu.

5.3.10.3 Yn achlysurol bydd aelodau o'r cyhoedd neu gynrychiolwyr i gyrff allanol yn gofyn am gyfarfod Aelod o'r Pwyllgor Gwaith neu Gadeirydd Pwyllgor ynghylch mater sy'n digwydd bod dan ystyriaeth. Dylai'r Aelod roi gwybod i'r Uwch Swyddog priodol am hynny a bydd y Swyddog yn briffio'r Aelod yn ôl fel y bo'n angenrheidiol. Os ydyw'r Aelod a'r Swyddog yn cytuno bydd Swyddogion eraill yn mynychu - rhai wedi eu briffio'n addas.

5.3.10.4 Bydd Swyddogion yn trefnu nifer o gyfarfodydd gyda chyd-weithwyr neu gyrff eraill i gyflawni busnes y Cyngor ac i weithredu ar eu penderfyniadau. Fel arfer ni fydd Aelodau yn mynychu'r cyfarfodydd hynny ond cânt wybod, yn anffurfiol neu trwy adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith neu i Bwyllgorau, am unrhyw

**5.3.11 Y Berthynas rhwng Aelodau'r Pwyllgor gwaith, Cadeiryddion, Uwch Swyddogion**

5.3.11.1 Ystyr "Uwch Swyddog" yw'r Prif Weithredwr a'r Swyddogion eraill sy'n aelodau o dîm rheoli'r Prif Swyddogion a chan gynnwys Swyddogion eraill sy'n uniongyrchol atebol iddynt ond ac eithrio staff ysgrifenyddol/clarcio a'r Swyddog Monitro (sydd hefyd yn Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol).

5.3.11.2 Yn naturiol mae'n bwysig sefydlu perthynas weithio glos rhwng Uwch Swyddogion ac Aelodau sydd mewn swyddi allweddol. Fodd bynnag, rhaid morol nad yw'r berthynas, ar unrhyw adeg, yn datblygu mor gynnes, neu'n ymddangos fel petai'n gynnes iawn, fel bod hynny'n bwrw amheuaeth ar allu'r Swyddogion i ddelio'n ddiduedd gydag Aelodau eraill a hefyd gyda'r grwpiau gwleidyddol eraill.

5.3.11.3 Fel rhan o'r drefn arferol ymgynghorir gydag Aelodau'r Pwyllgor Gwaith / Cadeiryddion wrth lunio rhaglen ar gyfer cyfarfod ond rhaid cydnabod, dan rai amgylchiadau, y bydd hi'n ddyletswydd ar y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid neu'r Swyddog Monitro i gyflwyno adroddiad ar bwnc penodol. Yn yr un modd bydd Swyddog, yn ddieithriad, yn gwbl gyfrifol am bob adroddiad a gyflwynir yn ei enw. Os bydd unrhyw wahaniaeth barn rhwng Aelod o'r Pwyllgor Gwaith / Cadeirydd a Swyddog yn y cyswllt hwn yna rhaid trosglwyddo'r mater i'r Prif Swyddog neu i'r Prif Weithredwr benderfynu arno ar y cyd gydag Arweinydd y Cyngor.

5.3.11.4 Dan Gyfansoddiad y Cyngor a rheolau'r gweithdrefnau mae'n bosib i Swyddogion, dan rai amgylchiadau, wneud penderfyniadau dan awdurdod dirprwyol. Dan amgylchiadau o'r fath y Swyddog, nid y Pwyllgor Gwaith, sy'n cymryd camau ac ef sy'n gyfrifol am y camau. Dan y Cynllun Dirprwyo dywedir fel a ganlyn (yn 3.5.1.5) "Bydd pob Swyddog sy'n cyflawni swyddogaethau dirprwyol yn cadw mewn cysylltiad agos â'r Aelod priodol o'r Pwyllgor Gwaith neu Gadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio neu'r Is-gadeirydd neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol mewn perthynas ag unrhyw fater y gellid ei ystyried yn sensitif neu'n ddadleuol ym marn y Swyddog".

5.3.11.5 Rhaid cofio bod swyddogion Adran yn atebol i'w Prif Swyddog ac, yn naturiol, dylai Swyddogion bob amser geisio cynnig cymorth i Gadeirydd, neu i unrhyw Aelod o'r Cyngor, ond wrth wneud hynny ni chânt, ar unrhyw gyfrif, fynd y tu draw i'w hawdurdod.

**5.3.12 Gohebiaeth**

5.3.12.1 Fel arfer ni chaniateir ffotocopïo gohebiaeth ar fater penodol rhwng Aelod unigol a Swyddog (sef ffotocopïo gan y Swyddog) at ddiben Aelod arall ac eithrio i Ddeilydd Portffolio (pan fo'r Swyddog, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, yn tybio bod hynny'n briodol) onid yw'r Aelod ei hun wedi gyrru copïau at Aelodau eraill; mae modd copïo gohebiaeth ar fater cyffredinol neu ar fater polisi yn ôl disgresiwn y Swyddog. Pan fo raid copïo gohebiaeth o'r fath i Aelod arall, rhaid egluro hynny'n benodol i'r Aelod gwreiddiol. Mewn geiriau eraill rhaid osgoi defnyddio system "copïau distaw".

5.3.12.2 Fel arfer bydd llythyrau swyddogol ar ran y Cyngor yn cael eu gyrru allan dan enw'r Swyddog priodol ac nid dan enw Aelod. Dan rai amgylchiadau (e.e. gyrru sylwadau at Weinidog y Llywodraeth yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith neu Bwyllgor arall) efallai y bydd hi'n briodol i lythyr ymddangos yn enw Aelod, ond eithriad i'r rheol fydd peth o'r fath. Pan fo llythyrau, fel enghraifft, yn creu dyletswyddau neu'n rhoddi cyfarwyddyd ar ran y Cyngor rhaid sicrhau nad ydynt byth yn mynd allan yn enw Aelod.

5.3.12.3 Gall Aelodau ddefnyddio eu papur personol eu hunain gyda phennawd y Cyngor Sir arno i ohebu wrth wneud eu gwaith fel Cynghorwyr ond, os gwnânt hynny, rhaid osgoi creu'r argraff eu bod yn ymrwymo'r Cyngor i gymryd camau penodol neu yn ei gaethiwo mewn unrhyw ffordd. Rhaid i'r Aelodau gymryd gofal rhag ofn torri'r rheolau sy'n gwahardd y Cyngor rhag bod yn rhan o gynhyrchu cyhoeddusrwydd pan fo'n ymddangos fod y cyhoeddusrwydd hwnnw wedi ei lunio i ddylanwadu ar gefnogaeth y cyhoedd trwy un blaid wleidyddol benodol ac o'r herwydd ni ddylent ddefnyddio'r papur hwn i bwrpas gohebiaeth y gallai pobl dybio ei bod yn hyrwyddo'r nod hwnnw. Mae'r rheolau hyn mewn grym bob amser a rhaid i'r Aelodau fod yn arbennig o ofalus o gwmpas amser etholiadau gan fod gohebiaeth yn fwy tebygol o gael ei dehongli'n wleidyddol ar yr adegau hynny.

### 5.3.13 Materion yn Cyffwrdd â Wardiau Cynghorwyr

5.3.13.1 Pryd bynnag y bydd y Cyngor yn trefnu cyfarfod cyhoeddus i ystyried pwnc lleol yna bydd yr holl Aelodau sy'n cynrychioli'r ward neu'r wardiau perthnasol bob amser yn derbyn gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod hwnnw. Yn yr un modd, pan fo'r Cyngor yn gwneud unrhyw waith ymgynghori ar faterion lleol yna bydd raid rhoddi gwybod i Aelodau'r Ward am hynny ar y cychwyn cyntaf.

5.3.13.2 Pan fo aelod o'r Cyngor, yn unol â gofynion Cynllun Dirprwyo y Cyfansoddiad, paragraff 3.5.1.7, wedi rhoddi gwybod i Swyddog gyda phwerau dirprwyol am ei ddiddordeb cyfreithlon mewn mater neu pan fo'r mater hwnnw'n cyffwrdd â ward yr Aelod yna bydd y Swyddog yn sicrhau bod yr Aelod hwnnw yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am bob datblygiad o bwys.

5.3.13.3 Yn unol ag Erthygl 13 (2.13.9.1) pryd bynnag y bydd hynny'n ymarferol bosib bydd unrhyw gorff neu unigolyn sy'n gwneud penderfyniad ar ran y Cyngor, a hynny'n cael effaith ar ward unigol, yn ymgynghori gyda'r Aelod lleol sy'n cynrychioli'r ward honno cyn gwneud y penderfyniad.

5.3.13.4 Yn unol ag Erthygl 13 (2.13.9.2) a pharagraff 5.3.8 uchod gwneir copïau i'r Aelod sy'n cynrychioli'r ward o lythyrau Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru pan fo'r rheini yn cael effaith ar y ward honno'n unig, oni ddywedir bod y llythyrau yn gyfrinachol.

### 5.3.14 Torri'r Côd

5.3.14.1 Os ydyw Swyddog yn torri'r Protocol mewn modd difrifol yna bydd camau'n cael eu cymryd yn ei erbyn dan weithdrefnau disgyblu cytunedig y Cyngor.

5.3.14.2 Os ydyw Aelodau Etholedig yn torri'r Protocol mewn modd difrifol yna bydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i'r mater ac yn cymryd camau priodol a hefyd gall drosglwyddo'r mater i'r Pwyllgor Safonau.

## 5.4 Polisi Bwlio ac Ymddygiad Bygythiol

### 5.4.1 Rhagarweiniad

Ni fydd bwlio ac ymddygiad bygythiol yn y lle gwaith yn cael eu goddef. Cyfrifoldeb yr aelodau etholedig, rheolwyr, staff unigol ac undebau llafur yw sicrhau nad oes diwylliant yn yr amgylchedd gweithio a allai ganiatau i fwlio ac ymddygiad bygythiol ddatblygu. Lle gwelir bod y naill beth neu'r llall yn digwydd, mae yna drefn gyfrinachol glir i'w dilyn. Rhoddir gwybodaeth am y drefn honno isod.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

# PROTOCOL AR GYFER Y BERTHYNAS RHWNG AELODAU A SWYDDOGION

## MYNEGAI


**1. Rhagarweiniad**
**2. Cofnodion**
**3. Rôl yr Aelodau**
**4. Rôl Swyddogion**
**5. Y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion: Cyffredinol**
**6. Y Cyngor fel Cyflogwr**
**7. Y Cadeirydd a Swyddogion**
**8. Aelodau'r Pwyllgor Gwaith a Swyddogion**
**9. Aelodau'r Pwyllgorau Sgriwtini a Swyddogion**
**10. Aelodau Pwyllgorau neu Is-Bwyllgorau eraill a Swyddogion**
**11. Grwpiau Gwleidyddol a Swyddogion**
**12. Aelodau Lleol a Swyddogion**
**13. Y Berthynas gyda'r Cyfryngau**
**14. Gohebiaeth**
**15. Defnyddio Adnoddau'r Cyngor**
**16. Torri'r Protocol hwn**


1. **RHAGARWEINIAD**

1.1 Mae'r Cyngor yn cydsynio â'r farn na all yr un awdurdod lleol weithredu'n effeithiol heb berthynas broffesiynol dda rhwng eu Haelodau a'u Swyddogion.

1.2 Pwrpas y Protocol hwn yw llywio Aelodau a Swyddogion y Cyngor yn eu perthynas gyda'i gilydd; gyda'r nod o hyrwyddo'r safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus sydd raid wrthynt ar gyfer llywodraeth leol lwyddiannus.

1.3 Mae'r Protocol hwn yn ceisio hyrwyddo mwy o eglurder a sicrwydd, gan gynnig cyngor ac arweiniad cyffredinol.

1.4 Gall torri'r Protocol hwn olygu torri Côd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau neu'r Côd Ymddygiad ar gyfer Swyddogion.

1.5 Mae'r Protocol hefyd yn ceisio adlewyrchu'r egwyddorion sy'n sail ar gyfer y Codau Ymddygiad perthnasol ar gyfer Aelodau a Swyddogion. Nod cyffredin y Codau hyn yw gwella a chynnal uniondeb llywodraeth leol, gan fynnu felly ar safonau uchel iawn o ymddygiad personol.

2. **COFNODION**

2.1 Rhaid i Aelodau a Swyddogion lynu wrth y Protocol hwn bob amser pan fônt yn ymwneud â'i gilydd.

2.2 Rhaid i Aelodau a Swyddogion barchu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r naill a'r llall bob amser. Rhaid iddynt ddangos parch, trwy lynu at safonau rhesymol o gwrteisi, a thrwy beidio â cheisio cymryd mantais annheg yn rhinwedd eu swyddogaethau.

2.3 Er na fedr Aelodau a Swyddogion weithio y naill heb y llall, mae eu cyfrifoldebau yn wahanol ac ar wahân. Mae Aelodau yn atebol i'r etholwyr gan wasanaethu dim ond cyhyd ag y pery eu cyfnod yn y swydd. Mae'r Swyddogion yn atebol i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd ac mae eu gwaith yn cynnwys rhoi cyngor i Aelodau (yn unigol ac ar y cyd) a chyflawni gwaith y Cyngor dan gyfarwyddwyd y Cyngor ac yn unol â'u cyfrifoldebau rheolaeth llinell.

2.4 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Codau Ymddygiad ar gyfer Aelodau a Swyddogion. Mae'r ddau yn cynrychioli gwerth gorau. Mae'r Côd ar gyfer Aelodau yn dilyn y côd cenedlaethol sy'n seiliedig ar yr egwyddorion cyffredinol sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau. Y rhain yw:-

- Anhunanoldeb - gan wasanaethu'r budd cyhoeddus yn unig.
- Gonestrwydd ac uniondeb - cymryd yr holl gamau rhesymol i osgoi bwrw amheuaeth ar y rhain, peidio ag ymddwyn yn amhriodol.
- Gwrthrychedd - gwneud penderfyniadau yn ôl eu haeddiant.
- Atebolrwydd – i'r cyhoedd; bod yn agored i sgriwtini.
- agoredrwydd - rhoi eglurhad a rhesymau dros benderfyniadau.
- Barn bersonol – dod i'w casgliadau eu hunain a gweithredu ar y sail honno.
- Parch tuag at eraill - hyrwyddo cydraddoldeb; osgoi rhagfarnu, parchu eraill (Aelod/Aelod, yn ogystal ag Aelod/Swyddog).
- Dyletswydd i lynu wrth y gyfraith - peidio â gweithredu yn anghyfreithlon.
- Stiwardiaeth - sicrhau defnydd doeth o adnoddau'r Cyngor.
- Arweinyddiaeth - gweithredu mewn modd sy'n ennyn hyder y cyhoedd.

2.5 Rhaid i Swyddogion lynu wrth Gôd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Swyddogion ac, mewn rhai achosion, wrth eu Codau Ymddygiad Proffesiynol eu hunan hefyd.

2.6 Os bydd Aelod yn torri'r Protocol hwn, gallai hynny arwain at gŵyn i

Ombwdsmon Gwasanaethau Gyhoeddus Cymru (OGGC) os yw'n ymddangos bod y Protocol wedi ei dorri mewn modd sy'n golygu bod y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau wedi ei dorri hefyd. Gellir delio ag achosion eraill o dorri'r Protocol, sy'n disgyn y tu allan i awdurdodaeth OGGC, dan unrhyw Brotocol Hunanreoleiddio lleol. Gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn Swyddog sy'n torri'r Protocol.

3. **RÔL YR AELODAU**

3.1 Mae gan Aelodau nifer o rolau a chyfrifoldebau a rhaid iddynt fod yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer gwrthdaro a fedr godi rhwng eu swyddogaethau. Yn y sefyllfaoedd hyn, argymhellir bod Aelodau yn gofyn am gyngor cyd-aelodau blaenllaw, swyddogion perthnasol ac/neu'r Swyddog Monitro.

3.2 Gyda'i gilydd, Aelodau sy'n gwneud polisïau'r Cyngor; penderfynu ar gynlluniau strategol sy'n ffurfio'r fframwaith polisi a gosod cyllideb flynyddol y Cyngor.

3.3 Mae Aelodau hefyd yn cynrychioli cymuned ehangach Ynys Môn, gan weithredu fel arweinwyr yn y gymuned i hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal; yn aml mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill neu fel cynrychiolwyr ar gyrff allanol.

3.4 Mae pob Aelod yn cynrychioli budd eu wardiau etholiadol a'u hetholwyr unigol ac yn eiriolwyr drostynt. Mae Aelodau yn cynrychioli'r Cyngor yn eu wardiau, gan ymateb i bryderon a materion lleol, cyfarfod gydag asiantaethau partner a gwasanaethu ar gyrff lleol.

3.5 Mae gan rai Aelodau swyddogaethau mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Pwyllgor Gwaith, Pwyllgorau Sgriwtini, Pwyllgorau Rheoleiddio neu Is-Bwyllgorau a Phanelau'r Cyngor.

3.6 Gall Aelodau'r Pwyllgor Gwaith hefyd fod â phwerau dirprwyol unigol, un ai'n gyffredinol, neu ar sail ad-hoc.

3.7 Gall Aelodau'r Pwyllgor Gwaith benderfynu materion o fewn eu portffolio o gyfrifoldebau ond Swyddogion fydd yn gyfrifol am weithredu eu penderfyniadau.

3.8 Mae gan Aelodau sy'n gwasanaethu ar Bwyllgorau neu Is-Bwyllgorau gyfrifoldebau ar y cyd, e.e. penderfynu ar faterion rheoleiddiol/lled-farnwrol (h.y. penderfyniadau sy'n cael effaith ar unwaith a sylweddol ar ymgeiswyr/gwrthwynebwyr unigol ac ati) ac nad ydynt, yn unol â'r gyfraith, yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Gwaith.

3.9 Fel gwleidyddion, gall Aelodau fynegi gwerthoedd a dyheadau grŵp neu blaid wleidyddol y maent yn perthyn iddi, ond gan gydnabod bod ganddynt ddyletswydd bob amser i weithredu er budd y cyhoedd yn eu swyddogaethau fel Aelodau.

3.10 Yn eu gwahanol swyddogaethau, a ddisgrifir ym mharagraffau 3.2 i 3.9, mae ymddygiad yr Aelodau yn gosod cywair a gwerthoedd craidd y Cyngor.



DRAFT

3.11 Trwy werthuso perfformiad, gosod targedau, a rheolaeth o ddydd i ddydd, mae Swyddogion yn derbyn eu cyfarwyddiadau gan eu rheolwyr llinell. Nid oes gan Aelodau awdurdod i gyfarwyddo Swyddogion ac eithrio:

- trwy'r broses ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau;
- gofyn am ddarpariaeth o adnoddau treuliadwy a ddarperir gan y Cyngor i'w defnyddio gan Aelodau;
- lle bo staff wedi eu neilltuo'n benodol i roi cefnogaeth i Aelod neu grŵp o Aelodau.

3.12 Nid oes gan Aelodau awdurdod i gychwyn nac i ardystio trafodion ariannol, nac i wneud contract ar ran y Cyngor.

3.13 Rhaid i Aelodau osgoi cymryd camau sydd yn anghyfreithlon, yn ariannol amhriodol neu'n debygol o fod yn gamweinyddu (h.y. yn groes i bolisi neu weithdrefnau). Dan y Côd Ymddygiad, mae gan Aelodau ddyletswydd, pan fônt yn gwneud penderfyniadau, i ystyried unrhyw gyngor a ddarparwyd gan y Swyddog Arweiniol ac yn arbennig y Prif Weithredwr, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro.

3.14 Rhaid i Aelodau barchu didueddrwydd y Swyddogion a pheidio â gwneud dim i beryglu hynny, e.e. trwy fynnu bod Swyddog yn newid ei gyngor/chyngor proffesiynol.

3.15 Mae gan Aelodau ddyletswydd i lynu wrth y gofynion a ddisgrifir yn eu Côd Ymddygiad.

## 4. RÔL SWYDDOGION

4.1 Mae Swyddogion yn gyfrifol am roi cyngor i Aelodau fel bod modd iddynt gyflawni eu swyddogaethau. Wrth wneud hynny, bydd Swyddogion yn cymryd yr holl ffactorau perthnasol sydd ar gael i ystyriaeth.

4.2 Dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Cyngor (gan gynnwys, fel sy'n briodol, y Pwyllgor Gwaith, Pwyllgorau ac Is-Bwyllgorau), mae Swyddogion yn rheoli ac yn darparu gwasanaethau'r Cyngor o fewn y fframwaith o gyfrifoldebau a ddirprwywyd iddynt. Mae hyn yn cynnwys rheoli gweithwyr a materion gweithredol yn effeithiol.

4.3 Mae dyletswydd ar Swyddogion i weithredu penderfyniadau'r Cyngor, y Pwyllgor Gwaith, Pwyllgorau ac Is-Bwyllgorau sy'n gyfreithlon, ac sydd wedi ei gymeradwyo'n briodol yn unol â gofynion y gyfraith a Chyfansoddiad y Cyngor ac sydd wedi eu cofnodi yn briodol.

4.4 Mae gan Swyddogion ddyletswydd gyfreithiol a chontractyddol i fod yn ddiduedd. Rhaid iddynt sicrhau nad yw eu safbwyntiau personol yn dylanwadu ar eu cyngor a'u barn broffesiynol.

DRAFT

4.5 Rhaid i Swyddogion gynorthwyo a chynghori pob rhan o'r Cyngor. Rhaid iddynt bob amser weithredu hyd eithaf eu gallu er budd y Cyngor fel y mynegir ym mhenderfyniadau ffurfiol y Cyngor.

4.6 Rhaid i Swyddogion fod yn ymwybodol o faterion sy'n ddadleuol, neu sy'n debygol o fod yn ddadleuol, neu faterion sy'n wleidyddol sensitif, ac yn ymwybodol hefyd o'r goblygiadau i Aelodau, y cyfryngau neu garfannau eraill o'r cyhoedd.

4.7 Mae gan Swyddogion hawl i beidio cefnogi Aelodau mewn unrhyw swyddogaeth ac eithrio eu swyddogaethau fel Aelodau, ac i beidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau nad ydynt yn gyson gyda'r Protocol hwn. Yn arbennig, mae cyfyngiad statudol ar ymwneud Swyddogion â gweithgareddau gwleidyddol. Gall gweithredu'n groes i'r cyfyngiad statudol arwain at gamau disgyblu.

## 5. Y BERTHYNAS RHWNG AELODAU A SWYDDOGION: CYFFREDINOL

5.1 Dylai ymddygiad Aelodau a Swyddogion ennyn parch a hyder rhwng y naill a'r llall.

5.2 Yr elfennau allweddol yw cydnabod a pharchu cyfrifoldebau'r naill a'r llall. Dylai'r rhain fod wedi eu hadlewyrchu yn ymddygiad ac agwedd y naill tuag at y llall, yn gyhoeddus ac yn breifat.

5.3 Anogir cyswllt anffurfiol a chydweithredol rhwng Aelodau a Swyddogion, ond gall adnabyddiaeth bersonol ddifrodi'r berthynas, fel y gallai cysylltiad teuluol neu gysylltiad busnes.

5.4 Dylai Aelodau a Swyddogion roi gwybod i'r Swyddog Monitro, neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, am unrhyw berthynas y gellir ei hystyried yn un sy'n cael dylanwad amhriodol ar eu gwaith yn eu swyddogaethau gwahanol. Gallai perthynas o'r fath hefyd gynnwys rhywun yr ydych wedi bod mewn anghydfod â nhw, neu rywun y gellir ei ystyried y byddai o fudd i chi ei roi dan anfantais, (yn debyg i ddiffiniad yr Ombwdsmon 'rhywun mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw' yn ei Ganllawiau ar y Côd Ymddygiad.

5.5 Yn ogystal ag osgoi amhriodoldeb gwirioneddol, dylai Aelodau a Swyddogion fod yn agored bob amser am eu cydberthynas i osgoi unrhyw reswm am amheuaeth neu unrhyw ganfyddiad o ymddygiad amhriodol. Lle datgelwyd perthynas bersonol, dylai'r unigolion dan sylw osgoi sefyllfa lle gellid yn rhesymol ganfod gwrthdrawiad. Yn benodol, rhaid i Aelod beidio ag eistedd ar unrhyw gorff, neu gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad, sy'n cael effaith uniongyrchol ar y Swyddog ar sail bersonol. Sut bynnag, mae amgylchiadau o'r fath hefyd yn debygol o fod yn ddiddordeb sy'n rhagfarnu dan y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

5.6. Mae Swyddogion yn gwasanaethu'r Cyngor cyfan. Mae dyletswydd arnynt i weithredu penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor ac a awdurdodwyd yn

DRAFT

briodol.

5.7 Mae Swyddogion yn gweithio yn ôl cyfarwyddiadau eu rheolwyr llinell, ac nid aelodau unigol. Mae'n dilyn o hynny, er y bydd Swyddogion o'r fath bob amser yn ceisio cynorthwyo Aelodau, rhaid peidio â gofyn iddynt fynd y tu draw i'r awdurdod a roddwyd iddynt gan eu rheolwyr. Ac eithrio lle mae ymholiad yn cael ei wneud i ofyn am wybodaeth ffeithiol, sef gwybodaeth y mae gan yr Aelod hawl i'w chael, dylai Aelodau, fel arfer, gyfeirio unrhyw geisiadau a phryderon i Bennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr Corfforaethol yn y lle cyntaf.

5.8 Bydd Swyddogion yn gwneud eu gorau i ymateb yn brydlon i ymholiadau gan Aelodau. Fodd bynnag, rhaid i'r ceisiadau iddynt fod yn rhesymol. Mae eu blaenoriaethau gwaith yn cael eu gosod a'u rheoli gan eu rheolwyr. Dylai Aelodau osgoi amharu ar waith Swyddogion trwy geisio gorfodi eu blaenoriaethau eu hunain. Dylai Swyddogion roi gwybod i'w rheolydd llinell am unrhyw bryderon o'r fath.

5.9 Bydd Aelodau yn ceisio ymateb yn brydlon i ymholiadau gan Swyddogion.

5.10 Mae gan staff hawl i godi materion gyda'u Haelod lleol fel dinasyddion y Sir. Fodd bynnag, ni chânt lobïo Aelodau ar faterion cyflogaeth bersonol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod Aelodau, fel cyflogwyr a gwneuthurwyr polisi, yn cael cyngor cytbwys ac unedig o fewn fframwaith trefnus. Rhaid i Aelodau wrthod ymateb i lobïo amhriodol gan staff a rhaid hysbysu'r Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol yn y fath achosion.

5.11 Dylai Aelodau a Swyddogion barchu amser hamdden y naill a'r llall (h.y. amser y tu allan i'r Cyngor).

## 6. **Y CYNGOR FEL CYFLOGWR**

6.1 Mae Swyddogion yn cael eu cyflogi gan y Cyngor yn ei gyfanrwydd.

6.2 Cyfyngir swyddogaethau Aelodau i:

- penodi i uwch swyddi penodol;
- penderfynu polisïau adnoddau dynol ac amodau cyflogaeth; a
- gwrando a phenderfynu apeliadau perthnasol.

6.3 Ni chaiff Aelodau weithredu y tu allan i'r swyddogaethau hyn.

6.4 Os ydynt yn cymryd rhan mewn proses ar gyfer penodi Swyddogion, dylai Aelodau:

- gofio bod dyletswydd statudol i benodi ar sail haeddiant yn unig;
- byth â chanfasio am gefnogaeth i ymgeisydd penodol;
- peidio â chymryd rhan, neu geisio dylanwadu ar y canlyniad, os oes

cyswllt personol agos rhyngddynt ac un o’r ymgeiswyr;

- peidio â chael eu dylanwadu gan ystyriaethau ac eithrio haeddiant neu addasrwydd ar gyfer y swydd; a
- peidio â ffafrio ymgeisydd penodol trwy roi gwybodaeth iddynt nad yw ar gael i ymgeiswyr eraill;
- glynu wrth ofynion y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

6.5 Ni ddylai Aelod eistedd ar banel apêl os yw’r apelydd yn ffrind, yn perthyn iddo/iddi, neu yn Swyddog y mae’r Aelod yn gweithio’n agos ag ef/hi neu wedi gweithio yn agos ag ef/hi.

## 7. CADEIRYDD A SWYDDOGION

Bydd Swyddogion yn parchu Cadeirydd y Cyngor ac yn darparu cefnogaeth briodol.

## 8. AELODAU’R PWYLLGOR GWAITH A SWYDDOGION

8.1 Bydd Aelodau’r Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniadau yn unol â’r Cyfansoddiad ac ni fyddant yn cyfarwyddo staff fel arall. Bydd Cyfarwyddwyr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau bod staff yn gweithredu penderfyniadau’r Pwyllgor Gwaith.

8.2 Mae gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth (yn ogystal â’r swyddogion statudol) hawl i gyflwyno papurau i’r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfanrwydd neu, lle mae’n berthnasol, i Aelodau unigol o’r Pwyllgor Gwaith i’w hystyried cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud.

8.3 Bydd Cyfarwyddwr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau’r Pwyllgor Gwaith yn cytuno ar ddulliau hwylus o gyswllt rheolaidd. Cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ffurfiol, bydd y Pwyllgor Gwaith yn gofyn am gyngor proffesiynol priodol gan gynnwys, yn ddieithriad, cyngor y Swyddog Monitro a’r Swyddog Adran 151 ac ni fydd yn cyfarwyddo Swyddogion ynglŷn â sut i lunio argymhellion.

8.4 Cyn i’r Pwyllgor Gwaith wneud unrhyw benderfyniadau ffurfiol a chanddynt oblygiadau ariannol, rhaid ymgynghori gyda’r Swyddog Adran 151 a’r Cyfarwyddwr Corfforaethol/Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth/Gwasanaethau dan sylw. Pwrpas hyn yw sicrhau bod y Swyddogion sy’n dal cyllidebau:

- yn ymwybodol o’r penderfyniad arfaethedig;
- yn cael cyfle i gynnig cyngor; a
- yn gallu awdurdodi’n briodol y trafodion ariannol sydd raid wrthynt i weithredu’r penderfyniadau.

8.5 Rhaid i aelod unigol o’r Pwyllgor Gwaith sy’n dymuno ysgrifennu neu gomisiynu adroddiad, neu sy’n dymuno gwneud penderfyniad ar fater o fewn



DRAFT

ei bortffolio/phortffolio, sicrhau ei fod/ei bod yn hysbysu'r Aelodau a'r Swyddogion eraill y mae angen iddynt wybod am y mater. Yn benodol, mae'n rhaid ymgynghori ag Aelodau eraill o'r Pwyllgor Gwaith ar faterion sy'n croestorri.

8.6 Wrth wneud penderfyniadau, rhaid i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith (un ai ar y cyd neu yn unigol) ddatgan eu rhesymau dros y penderfyniadau. Rhaid i'r cofnod ysgrifenedig o'r penderfyniadau gynnwys y rhesymau.

8.7 Rhaid i Swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau yn unol â'u pwerau dirprwyol eu hunain ystyried a fyddai'n ddoeth rhoi gwybod i'r Aelod/Aelodau perthnasol o'r Pwyllgor Gwaith am eu bwriadau, ymlaen llaw, pan fo'r mater y gwneir y penderfyniad yn ei gylch yn debygol o fod yn sensitif neu'n ddadleuol, neu gyda goblygiadau polisi ehangach.

## 9. <u>AELODAU'R PWYLLGORAU SGRIWTINI A SWYDDOGION</u>

9.1 Rhaid i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau Sgriwtini gadw mewn cyswllt rheolaidd gyda Swyddogion Sgriwtini sy'n darparu'r brif gefnogaeth i'r Swyddogaeth Sgriwtini. Mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeiryddion, cyfrifoldeb y Swyddogion hynny fydd sicrhau bod y rheini sydd angen gwybod am faterion sy'n cael sylw, neu sy'n debygol o gael sylw yn y dyfodol, yn cael gwybod amdanynt.

9.2 Gall Pwyllgor Sgriwtini, neu Gadeirydd y Pwyllgor yn gweithredu ar ran y Pwyllgor, fynnu bod Swyddogion yn dod i gyfarfodydd Sgriwtini. Ni ddylai Aelodau ddisgwyl i Swyddogion Iau i wneud hynny, a dylai pob cais am bresenoldeb unrhyw Swyddog gael ei gyfeirio at y Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol.

9.3 Wrth wneud cais i Swyddog fynychu, bydd rhaid i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini gymryd baich gwaith y Swyddogion i ystyriaeth.

9.4 Pan yn mynychu Pwyllgor Sgriwtini (neu Panelau Canlyniad Sgriwtini) dylai Swyddogion fod yn fodlon cyfiawnhau unrhyw gyngor y maent eisoes wedi ei roi ar y mater dan sylw, hyd yn oed pan na dderbyniwyd y cyngor hwnnw. Bydd gofyn i Swyddogion hefyd gyfiawnhau'r penderfyniadau y maent wedi eu gwneud yn unol â'u pwerau dirprwyol eu hunain, neu mewn amgylchiadau lle y maent wedi eu hawdurdodi'n briodol i gymryd penderfyniadau gweithredol.

9.5 Wrth roi gwybodaeth i Bwyllgorau Sgriwtini, neu Panelau Canlyniad, ni ddylid gofyn i Swyddogion am farn wleidyddol ac ni ddylent gynnig barn o'r fath chwaith.

9.6 Wrth holi Swyddogion mewn cyfarfodydd Sgriwtini, dylai Aelodau annerch Swyddogion gydag urddas a pharch a thrin eu hymatebion gyda chwrteisi. Ni ddylid gofyn iddynt am faterion o natur ddisgyblaethol.

9.7 Rhaid i Swyddogion barchu Aelodau yn y ffordd y maent yn ymateb i



DRAFT

gwestiynau'r Aelodau.

9.8 Rhaid i Sgriwtini ganolbwyntio ar adolygu polisïau ac ar berfformiad y Cyngor a'i Wasanaethau. Ni chaniateir trafod materion personol, fel perfformiad Swyddogion unigol, yn y fforymau hyn o dan unrhyw amgylchiadau. Yn y cyd-destun hwn, cyfeirir yr Aelodau at Adran 16 y Protocol hwn.

9.9 Os yw'n ffactor berthnasol, cyn galw penderfyniad y Pwyllgor Gwaith i mewn, dylai Aelodau Sgriwtini geisio cael cyngor yn fuan gan y Swyddog Adran 151, os byddant yn ystyried bod y penderfyniad yn groes i Fframwaith Cyllidebol y Cyngor, a chyngor gan y Swyddog Monitro os ydynt yn ystyried bod y penderfyniad yn groes i Fframwaith Polisi'r Cyngor.

## 10. <u>AELODAU PWYLLGORAU NEU IS-BWYLLGORAU ERAILL A SWYDDOGION</u>

10.1 Bydd y Swyddog sydd â chyfrifoldeb arweiniol yn trefnu cyfarfodydd anffurfiol yn rheolaidd gyda Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgor ac Is-Bwyllgorau.

10.2 Mae gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth (yn cynnwys y swyddogion statudol) hawl i gyflwyno adroddiadau a rhoi cyngor i Bwyllgorau ac Is-Bwyllgorau.

10.3 Rhaid i Aelodau Pwyllgor neu Is-Bwyllgor wneud penderfyniadau o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor neu'r Is-Bwyllgor hwnnw, ac ni fyddant fel arall yn rhoi cyfarwyddyd i Swyddogion weithredu.

10.4 Mewn rhai cyfarfodydd o Bwyllgorau neu Is-Bwyllgorau, efallai y bydd penderfyniad yn cael ei basio sy'n awdurdodi Swyddog a enwir i weithredu rhwng cyfarfodydd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd. Mewn amgylchiadau o'r fath, y Swyddog ac nid y Cadeirydd sy'n gweithredu ac sy'n gyfrifol am hynny. Nid oes gan Gadeirydd unrhyw bŵer cyfreithiol i wneud penderfyniadau ar ran Pwyllgor neu Is-Bwyllgor ac ni ddylai ef/hi chwaith roi pwysau amhriodol ar y Swyddog.

## 11. <u>GRWPIAU GWLEIDYDDOL A SWYDDOGION</u>

11.1 Mae'n iawn i grwpiau gwleidyddol ofyn i Gyfarwyddwr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth gyfrannu i drafodaethau ar faterion sy'n ymwneud â busnes y Cyngor. Mae gan Swyddogion hawl i wrthod ceisiadau o'r fath, ac fel arfer ni fyddant yn mynychu cyfarfod o grŵp gwleidyddol lle nad yw pawb sy'n bresennol yn Aelodau o'r Cyngor.

11.2 Ni fydd cefnogaeth gan Swyddogion yn ymestyn y tu hwnt i ddarparu gwybodaeth ffeithiol neu gyngor proffesiynol mewn perthynas â materion o fusnes y Cyngor. Ni ddylai Swyddogion gynghori ar faterion busnes grŵp, ac felly ni ddylid disgwyl iddynt fod yn bresennol mewn cyfarfodydd, neu rannau o gyfarfodydd, pan fo materion o'r fath yn cael eu trafod.



DRAFT

11.3 Nid oes gan gyfarfodydd grwpiau gwleidyddol y grym i wneud penderfyniadau ar ran y Cyngor, ac nid yw casgliadau y daethpwyd iddynt mewn cyfarfodydd o'r fath yn cyfrif fel penderfyniadau ffurfiol. Nid yw presenoldeb Swyddog yn rhoi unrhyw statws ffurfiol i gyfarfodydd o'r fath o safbwynt busnes y Cyngor ac ni ellir ei ddehongli fel pe bai'n gwneud hynny. Mewn achosion lle mae Swyddogion yn darparu gwybodaeth ffeithiol a chyngor i grŵp gwleidyddol mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â busnes y Cyngor, nid yw hyn yn rhywbeth a wneir yn lle darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol a chyngor pan fo'r mater arbennig yn cael ei ystyried yn ffurfiol gan gorff perthnasol o'r Cyngor.

11.4 Ni ddylid tybio bod Swyddog yn cefnogi polisi neu safbwynt arbennig fydd yn cael ei ystyried mewn cyfarfod o grwp gwleidyddol dim ond oherwydd bod y Swyddog wedi mynychu neu wedi rhoi gwybodaeth i'r cyfarfod.

11.5 Rhaid i Swyddogion barchu cyfrinachedd trafodaethau unrhyw un o'r grwpiau gwleidyddol lle maent yn bresennol ac, oni bai y gofynnir yn benodol iddynt gan y grwp gwleidyddol, ni fyddant yn datgelu cynnwys trafodaethau o'r fath i grwp gwleidyddol arall, nac i unrhyw Aelod neu Aelodau. Ni fydd hyn yn rhwystro Swyddog rhag rhoi adborth i Swyddogion eraill ar sail "angen gwybod".

11.6 Wrth ddelio â grwpiau gwleidyddol, rhaid i'r Swyddogion drin pob grwp mewn dull teg a chyson.

11.7 Ni chaniateir i Aelodau wneud unrhyw beth sy'n peryglu, neu sy'n debygol o beryglu, didueddrwydd Swyddog.

11.8 Bydd y cyfnod amser y bydd Swyddog yn ei dreulio mewn cyfarfod o grwp gwleidyddol yn cael ei reoli gan y grwp, ond fe all Swyddog adael ar unrhyw amser os yw'r Swyddog yn teimlo nad yw bellach yn briodol iddo aros yno.

11.9 Ni ddylai Swyddog sy'n derbyn gwahoddiad i gyfarfod o un grwp gwleidyddol wrthod gwahoddiad i roi cyngor i grwp arall ar yr un mater. Rhaid i'r Swyddog roi'r un cyngor i bob pwrpas, i bob grwp.

11.10 Ni fydd Swyddog sydd yn is na lefel Pennaeth Gwasanaeth yn cael ei wahodd i fynychu cyfarfod o grwp gwleidyddol, ond fe all y Swyddog a wahoddir enwebu Swyddog arall i fynychu ar ei ran.

11.11 Rhaid rhoi cyfle i Swyddog wirio sylwadau a chyngor a briodolir iddynt hwy mewn unrhyw gofnod ysgrifenedig o gyfarfod unrhyw grwp gwleidyddol.

11.12 Ni chaniateir i unrhyw Aelod gyfeirio'n gyhoeddus, neu mewn cyfarfodydd o'r Cyngor, at gyngor neu wybodaeth a roddwyd gan Swyddogion mewn cyfarfod o grwp gwleidyddol.

11.13 Mewn cyfarfodydd o grwp gwleidyddol lle nad yw rhai o'r rheiny sy'n bresennol yn Aelodau o'r Cyngor, rhaid bod yn ofalus i beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol sy'n ymwneud â busnes y Cyngor. Nid yw'r sawl nad ydynt yn Aelodau yn gorfod glynu wrth Gôd Ymddygiad yr Aelodau. Nid

oes ganddynt yr un hawliau i gael at wybodaeth y Cyngor ag sydd gan Aelodau.

11.14 Rhaid i unrhyw achosion arbennig lle ceir anhawster neu ansicrwydd mewn perthynas â'r rhan hon o'r Protocol, gael eu trafod mor fuan ag sy'n bosibl gyda'r Prif Weithredwr a chydag arweinydd y grwp gwleidyddol perthnasol.

## 12. <u>AELODAU LLEOL A SWYDDOGION</u>

12.1 Er mwyn eu galluogi i wneud eu gwaith o ran cynrychioli eu wardiau, mae angen i Aelodau fod â gwybodaeth lawn ynglŷn â materion sy'n effeithio ar eu ward. Rhaid i Gyfarwyddwyr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn ymwybodol o'r angen i roi gwybodaeth i Aelodau lleol a thrwy hynny ganiatáu i'r Aelodau hynny gyfrannu tuag at y broses gwneud penderfyniadau a datblygu eu rôl gynrychioliadol.

12.2 Mae'r angen hwn yn arbennig o bwysig:

- yn ystod cyfnodau cychwynnol datblygu unrhyw bolisi, lle mae hynny'n ymarferol;
- mewn perthynas â materion gweithredol arwyddocaol neu sensitif;
- pryd bynnag yr ymgymerir ag unrhyw ffurf o ymgynghori cyhoeddus; ac
- yn ystod ymchwiliad Sgriwtini.

12.3 Rhaid i'r holl Aelodau lleol a effeithir gael eu trin yn gyfartal o ran y wybodaeth a roddir iddynt. Mae hyn yn cynnwys wardiau aml-Aelod ac mewn achosion lle mae materion yn effeithio ar fwy nag un ward.

12.4 Pan fydd y Cyngor yn trefnu cyfarfod cyhoeddus, er mwyn ystyried mater lleol, rhaid gwahodd yr holl Aelodau sy'n cynrychioli'r ward/iau yr effeithir arni/arnynt i fynychu'r cyfarfod fel mater o drefn.

12.5 Pe bai Aelod lleol yn bwriadu trefnu cyfarfod cyhoeddus ar fater sy'n ymwneud â rhyw agwedd o waith y Cyngor, yna fe ddylai'r Aelod lleol ddweud wrth y Cyfarwyddwr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol. Ar yr amod nad yw'r cyfarfod wedi cael ei drefnu ar sail plaid wleidyddol:

- fe all Swyddog fynychu, ond nid oes raid iddo wneud hynny, ac
- yn amodol ar y trefniadau angenrheidiol, fe all y cyfarfod gael ei gynnal yn un o adeiladau'r Cyngor.

12.6 Ni ddylid trefnu unrhyw gyfarfod o'r fath na'i gynnal yn union cyn etholiadau'r Cyngor.

12.7 Er bod rhoi cefnogaeth i waith ward yr Aelodau yn gyfreithlon, rhaid bod yn

ofalus os gofynnir i Swyddogion fynd gydag Aelodau i gymorthfeydd yn y ward. Mewn amgylchiadau o'r fath:

- rhaid i'r cymorthfeydd fod yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, ac
- ni ddylid gofyn i Swyddogion fynd gydag Aelodau i gymorthfeydd sy'n cael eu cynnal yn swyddfeydd neu eiddo grwpiau neu bleidiau gwleidyddol.

12.8 Ni ddylid gofyn byth i Swyddogion fynychu cyfarfodydd plaid wleidyddol yn y ward neu'r etholaeth.

12.9 Mae'n cael ei gydnabod y bydd rhai aelodau o staff y Cyngor (e.e. y rhai sy'n darparu cefnogaeth benodol i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith) yn derbyn a thrin negeseuon ar ran Aelodau ynghylch pethau nad ydynt yn ymwneud â'r Cyngor. Er y bydd y rhain yn aml yn ymwneud â rheoli dyddiadur, rhaid cymryd gofal i osgoi defnyddio adnoddau'r Cyngor i ddibenion preifat neu i ddibenion plaid wleidyddol.

12.10 Wrth geisio ymdrîn â chwestiynau neu bryderon etholwyr, ni ddylai Aelodau geisio cael rhoi sylw i'r mater yn gynt ond, yn hytrach, fe ddylent barchu gweithdrefnau'r Cyngor. Mae yna bwysau mawr ar amser Swyddogion. Efallai na fyddant yn gallu gwneud y gwaith y mae'r Aelodau ei angen yn y cyfnod amser y gofynnir amdano, ac efallai y byddent angen cael cyfarwyddiadau gan eu rheolwyr.

## 13. Y BERTHYNAS GYDA'R CYFRYNGAU

13.1 Rhaid i bob cyswllt ffurfiol gyda'r cyfryngau gael ei gynnal yn unol â **Phrotocol y Cyfryngau sydd wedi ei gynnwys fel rhan o Strategaeth Gyfathrebu'r Cyngor (sydd ar gael ar wefan y Cyngor)**; a'r gyfraith ar gyhoeddusrwydd awdurdod lleol.

13.2 Yn eu hymwneud â'r cyfryngau, atgoffir yr Aelodau o'u hymrwymiadau yng nghyswllt cyfrinachedd yn unol â'r Côd Ymddygiad.

13.3 Bydd Swyddogion yn rhoi gwybod i Aelodau perthnasol ynghylch diddordeb y cyfryngau yng ngweithgareddau'r Cyngor, yn arbennig yng nghyswllt materion strategol neu faterion cynhennus.

13.4 Dylai swyddogion y mae'r cyfryngau yn cysylltu â nhw ailgyfeirio ymholiadau i'r Uned Gyfathrebu.

13.5 Yn yr un modd, bydd Swyddogion yn dweud wrth Uned Gyfathrebu'r Cyngor am faterion sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r cyfryngau, gan mai'r uned honno yn aml yw pwynt cyswllt cyntaf y cyfryngau.

13.6 Os bydd Aelod yn cysylltu â'r cyfryngau ar unrhyw fater neu os bydd y cyfryngau yn cysylltu ag ef/hi, rhaid i'r Aelod:

- nodi ym mha gapasiti y mae ef/hi yn siarad (e.e. fel Aelod ward, yn bersonol, fel Aelod o’r Pwyllgor Gwaith, ar ran y Cyngor, neu ar ran grwp gwleidyddol);

- bod yn siŵr ynglŷn â’r hyn y mae ef/hi eisiau ei ddweud neu beidio ei ddweud;

- os bydd angen, a phob amser pan fydd ef/hi yn dymuno rhyddhau datganiad i’r wasg, dylid ceisio cymorth gan Uned Gyfathrebu’r Cyngor ac/neu Gyfarwyddwyr Corfforaethol/Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol, ac eithrio mewn perthynas â datganiad sydd yn wleidyddol ei natur ;

- ystyried y canlyniadau tebygol i’r Cyngor yn dilyn ei dd/datganiad;

- byth wneud ymrwymiad mewn perthynas â materion y gall trydydd partïon gyflwyno hawliadau yn eu cylch ac/neu sy’n debygol o fod yn fater yswiriant;

- ystyried a ddylid ymgynghori ag Aelodau perthnasol eraill;

- cymryd gofal arbennig yn yr hyn y mae ef/hi yn ei ddweud pan fo etholiadau lleol neu genedlaethol yn agosáu er mwyn osgoi rhoi’r argraff o fod yn ymgyrchu ar ran yr Aelod, oni bai fod rhywun yn cysylltu ag ef / hi fel ymgeisydd etholiadol neu un yn gweithredu ar ran plaid;

- mae pob cyfeiriad a wneir yn yr adran hon at y cyfryngau yn cynnwys y wasg, y cyfryngau darlledu a’r cyfryngau electronig/cymdeithasol.

## 14. GOHEBIAETH

14.1 Ni ddylid copïo gohebiaeth rhwng Aelod unigol a Swyddog i Aelod arall oni bai bod hynny’n fwriad penodol gan yr awdur a’i fod wedi datgan hynny neu wedi rhoi ei ganiatâd. Mewn achos lle mae gohebiaeth yn cael ei chopïo, fe ddylid gwneud hynny’n glir bob amser h.y. ni ddylid byth darparu copïau “dall”.

14.2 Fe ddylai llythyrau swyddogol a ysgrifennir ar ran y Cyngor fel arfer fod yn enw’r Swyddog perthnasol. Efallai y bydd yn briodol mewn rhai amgylchiadau (e.e. sylwadau i Weinidog y Llywodraeth) i lythyrau ymddangos yn enw Aelod o’r Pwyllgor Gwaith neu Gadeirydd Pwyllgor Sgriwtini.

14.3 Fe all Cadeirydd gychwyn gohebiaeth yn ei enw ef/hi ei hun.

14.4 Ni ddylai llythyrau sy’n creu ymrwymiadau cyfreithiol y gellir eu gorfodi, neu sy’n rhoi cyfarwyddiadau ar ran y Cyngor, fyth gael eu hanfon yn enw Aelod.

14.5 Pan mae'n ysgrifennu fel unigolyn, fel Aelod ward, rhaid i Aelod wneud y ffaith honno yn glir.

DRAFT

15. **DEFNYDDIO ADNODDAU'R CYNGOR**

15.1 Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau fel teipio, printio a llungopïo i Aelodau, a hefyd nwyddau fel papur ysgrifennu ac offer cyfrifiadurol, i'w helpu i wneud eu gwaith fel Aelodau o'r Cyngor. Telir am y nwyddau a'r gwasanaethau hyn o'r pwrs cyhoeddus. Ni ddylid eu defnyddio i ddibenion preifat nac ychwaith mewn cysylltiad â gweithgareddau plaid wleidyddol nac ar gyfer unrhyw ymgyrchoedd.

15.2 Rhaid i Aelodau sicrhau eu bod yn deall ac yn cydymffurfio â gofynion y Cyngor ei hun ynglŷn â defnyddio adnoddau o'r fath, yn arbennig:

- lle mae cyfleusterau yn cael eu darparu yng nghartrefi'r Aelodau ar gost y Cyngor;
- mewn perthynas ag unrhyw drefniadau y cytunwyd arnynt yn lleol e.e. taliadau am lungopïo preifat; ac
- ynglŷn â diogelwch TGCh.

15.3 Ni ddylai Aelodau roi pwysau ar staff i ddarparu adnoddau neu gefnogaeth, nad oes gan Swyddogion yr hawl i'w rhoi. Esiamplau o hyn yw:

- busnes sydd yn ymwneud yn gyfan gwbl a phlaid wleidyddol;
- gwaith mewn cysylltiad â chyfarfod plaid wleidyddol mewn ward neu etholaeth;
- ymgyrchu etholiadol;
- gwaith yn gysylltiedig â digwyddiad y bydd Aelod yn ei fynychu mewn capasiti arall yn hytrach nag fel Aelod o'r Cyngor;
- gohebiaeth bersonol a phreifat;
- gwaith mewn cysylltiad â chorff neu fudiad arall lle bo cyswllt yr Aelod yn rhywbeth sydd ar wahân i'w waith fel Aelod o'r Cyngor; a
- cefnogaeth i Aelod yn ei gapasiti ef/hi fel Cynghorydd awdurdod lleol arall.

16. **TORRI'R PROTOCOL HWN**

16.1 Rhaid defnyddio'r rhan hon o'r Protocol ochr yn ochr â pholisi'r Cyngor ar **"rannu pryderon"**; **sydd ar gael ar wefan y Cyngor**.

16.2 Dylai Aelodau neu Swyddogion sydd â chwestiynau ynglŷn â gweithredu neu



DRAFT

ddehongli unrhyw ran o'r Protocol hwn geisio cyfarwyddyd gan y Swyddog Monitro.

16.3 Rhaid i Aelod sy'n anhapus ynglŷn â'r camau a gymerwyd gan y Swyddog neu gyda'i ymddygiad:

- osgoi gwneud ymosodiadau personol neu gam-drin y Swyddog;
- sicrhau bod rhesymau cadarn dros wneud unrhyw feirniadaeth, a'i bod yn adeiladol;
- beidio â beirniadu yn gyhoeddus; a
- chrybwyll y pryder gyda'r Swyddog yn breifat.

16.4 Os nad yw trafodaeth uniongyrchol gyda'r Swyddog yn briodol (e.e. oherwydd difrifoldeb y pryder) neu oni fu modd datrys y mater drwy drafodaeth, yna dylai'r Aelod grybwyll y mater gyda rheolwr y Swyddog neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.

16.5 Pe bai Swyddog yn torri'r Protocol hwn mewn modd difrifol, fe allai hynny arwain at ymchwiliad o dan **weithdrefn ddisgyblu'r Cyngor sydd ar gael ar wefan y Cyngor.**

16.6 Rhaid i Swyddog sy'n credu y gall Aelod fod wedi gweithredu'n groes i'r Protocol hwn leisio ei bryder gyda'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol ac fe all ef / hi wedyn geisio cyngor gan y Swyddog Monitro fel y ffordd fwyaf priodol a chymesur o fynd i'r afael â'r pryder a leisiwyd.

DRAFT

4.10.5.2.12 Bydd pwyllgor disgyblu'r Cyngor (ond heb yr unigolion hynny a oedd ar y pwyllgor ymchwilio) yn ystyried adroddiad dan bara 4.10.5.2.9 uchod ac yn ystyried sylwadau gan y swyddog y gwnaed yr haeriadau yn ei erbyn, a chan ddilyn trefniadau disgyblu manwl y Cyngor. Bydd modd apelio yn erbyn penderfyniad y pwyllgor hwn i'r Cyngor llawn ac eithrio yn achos Pennaeth y Gwasanaeth Taledig (yn ei achos ef bydd y Cyngor yn ystyried apêl, neu'n cymeradwyo argymhelliad y panel yn absenoldeb apêl).

**4.10.5.3 Camau disgyblu neu ddiswyddo**

Ni fydd a wnelo'r Cynghorwyr ddim â chamau disgyblu yn erbyn unrhyw swyddog na diswyddo unrhyw swyddog ac eithrio Pennaeth y Gwasanaeth Taledig, Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro, ac eithrio trwy'r broses apelio gydnabyddedig.

**4.10.5.4 Diffiniadau**

Ystyr "Pennaeth y Gwasanaeth Taledig" yw'r swyddog hwnnw a ddynodwyd yn Bennaeth Gwasanaeth Tâl i'r Awdurdod dan Adran 4 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Ystyr "Prif Swyddog Cyllid" neu "Swyddog dan Adran 151" yw swyddog a benodwyd i ddibenion Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 73 Deddf Llywodraeth Leol 1985 neu i ddibenion Adran 112 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

Ystyr "Swyddog Monitro" yw'r swyddog a ddynodwyd dan Adran 5(1) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

# Rhan 5 Codau a Phrotocolau

## 5.1 Y Cod Ymddygiad Enghreifftiol

## 5.2 Cod Ymddygiad Swyddogion

## 5.3 Protocol i'r Berthynas Rhwng Aelodau / Swyddogion

## 5.4 Polisi Bwlio ac Ymddygiad Bygythiol

## 5.5 Polisi Rhannu Pryderon

## 5.6 Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd

## 5.7 Y Weithdrefn Gwyno

## 5.8 Protocolau Rheolaeth Wleidyddol

## 5.9 Rhoddion a Lletygarwch

## 5.1 Y Cod Ymddygiad Enghreifftiol

Hwn yw’r Cod Ymddygiad Enghreifftiol a fabwysiadau gan y Cyngor Sir ar 09.05.2008 yn unol â’r drafft a gyflwynwyd gan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Rhan 1 – Dehongli**

1. (1) Yn y cod hwn
mae “aelod” (“member”) yn cynnwys aelod cyfetholedig onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall; ystyr “aelod cyfetholedig” (“co-opted member”), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond—
(a) sy'n aelod o unrhyw bwyllgor neu Is-Bwyllgor i'r awdurdod, neu

(b) sy'n aelod o unrhyw gyd-bwyllgor neu gyd-Is-Bwyllgor i’r awdurdod, ac sy'n cynrychioli'r awdurdod arno,

ac sydd â'r hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu o'r Is-Bwyllgor hwnnw;

ystyr “eich awdurdod” (“your authority”) yw'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono;

ystyr “awdurdod perthnasol” (“relevant authority”) yw —

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(ch) awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (1) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo,

(1) 2004 p.21

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (2);